

## Rhifwyr - gair i gall

Fel rheol, gwirfoddolwyr ar ran yr ymgeiswyr yw'r rhifwyr. Bydd y rhifwyr yn sefyll y tu allan i'r manau neu orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi rhif etholiadol yr etholwyr sydd wedi pleidleisio. Drwy weld pa etholwyr sydd heb bleidleisio a throsglwyddo'r wybodaeth hon i'r ymgeisydd neu i'w gefnogwyr, bydd gan rifwyr rôl bwysig i'w chwarae mewn etholiad a refferendwm. Fe all yr ymgeisydd neu ei gefnogwyr wedyn gysylltu â'r pleidleiswyr sydd heb fod i bleidleisio eto ar ddiwrnod yr etholiad a'u hannog i wneud hynny. Fe all hynny helpu i gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio.

Ni ddylid cael mwy nag un rhifwr ar gyfer pob ymgeisydd unigol ar yr un adeg mewn gorsaf bleidleisio. Os oes mwy nag un orsaf bleidleisio mewn man pleidleisio a'r mynedfeydd iddynt yn fynedfeydd ar wahân, fe allai fod yn briodol cael rhifwyr wrth bob mynedfa, ond nid mwy nag un ar gyfer pob ymgeisydd unigol.

**Nid oes gan rifwyr statws cyfreithiol o gwbl ac mae gan bleidleiswyr yr hawl i wrthod rhoi gwybodaeth iddyn nhw.** Caiff y Swyddog Canlyniadau neu ei staff roi canllawiau pellach ar weithgareddau rhifwyr.

### Rhaid i rifwyr wneud hyn

- aros y tu allan i'r orsaf bleidleisio drwy'r amser
- cadw draw o'r orsaf bleidleisio ac eithrio pan fyddan nhw'n mynd i fwrw'u pleidlais eu hunain, yn pleidleisio fel dirprwy neu'n helpu pleidleisiwr anabl
- cydymffurfio drwy'r amser â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Llywyddu

### Rhaid i rifwyr beidio â gwneud hyn

- gallu gweld neu glywed beth sy'n digwydd y tu mewn i'r orsaf bleidleisio
- rhwystro pleidleiswyr neu amharu arnynt neu eu bygwth wrth iddynt fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio neu wrth iddyn nhw ymadael
- mynnu unrhyw wybodaeth ynglŷn â rhif etholwr pleidleisiwr neu ynglŷn â'i enw neu ei gyfeiriad
- gofyn i bleidleiswyr fynd yn ôl i'r orsaf bleidleisio i ofyn am eu rhif etholwr
- trafod pethau gyda phleidleiswyr a allai arwain at honiadau eu bod yn dylanwadu'n amhriodol (e.e. bwriadau o ran pleidleisio neu gysylltiad â phlaid)
- arddangos unrhyw ddeunyddiau'n ymwneud â'r ymgyrch sy'n cefnogi neu'n gwrthwynebu unrhyw blaid wleidyddol neu ymgeisydd penodol, ac eithrio rhosyn neu fathodyn

## Caiff rhifwyr wneud hyn

- gofyn i bleidleiswyr am wybodaeth wrth iddyn nhw ddod i mewn i'r orsaf bleidleisio neu wrth iddyn nhw ymadael
- arddangos rhosyn lliw neu fathodyn sy'n dangos enw'r ymgeisydd, y blaid a/neu arwyddlun neu ddisgrifiad. Ni ddylai'r rhosyn/bathodyn gynnwys arwyddair nac arwyddlun ac ni ddylai fod yn rhy fawr